Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

21 Tachwedd 2016

Annwyl Gyfaill

**Ymchwiliad i drefn reoleiddio cymdeithasau tai**

Mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i'r drefn reoleiddio cymdeithasau tai. Er mwyn helpu gyda'i ymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y materion a ganlyn:

- Pa mor effeithiol yw'r fframwaith rheoleiddiol presennol ar gyfer cymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru;
- Effeithiolrwydd ac ansawdd y trefniadau llywodraethu;
- A yw'r drefn reoleiddio bresennol yn ddull effeithiol o reoli a lliniaru risgiau drwy'r sector cyfan;
- A yw'r trefniadau cyd-reoleiddio yn effeithiol o'u rhoi ar waith;
- Lefelau tâl yr uwch-swyddogion sy'n gweithio i gymdeithasau tai.

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymatebion yn Gymraeg neu'n Saesneg, a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar maes o law.

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y materion uchod. Gweler y canllawiau i dystion sy'n darparu tystiolaeth i bwyllgorau.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig, (**nid** ar ffurf dogfen PDF, yn ddelfrydol) i SeneddArchwilio@Cynulliad.Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Dylai unrhyw sylwadau ddod i law erbyn **6 Ionawr 2017**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (0300 200 6565).

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**